SUL CYFFREDIN 24

JOB 38:1-7 [34-41]; SALM 104:1-9, 24, 35C;
HEBREAID 5:1-10; MARC 10:35-45

● **Gweddi agoriadol**
Dduw Greawdwr,
datguddia dy hun i ni
drwy dy air tragwyddol.

Iesu annwyl,
datguddia dy hun i ni
yn y cariad a rannwn.

Ysbryd Glân,
datguddia dy hun ynom ni
drwy'r doniau a ddefnyddiwn.

Dri yn Un,
bydd y bywyd ynom
wrth i ni deithio gyda thi.

● **Moliant**
Am dy air,
yn fyw fel cleddyf wedi'i hogi,
yn torri trwy ddoethineb y byd,
molwn di.

Am dy air,
goleuni mewn tywyllwch,
yn ymestyn at galon pwy ydym,
molwn di.

Am dy air,
yn datguddio dy fawrhydi,
yn ein tynnu i'th freichiau cariadus,
molwn di.

● **Cyffes**
Maddau i ni, Arglwydd, pan fo ein gweddïau
amdanom ni ein hunain yn unig
a'n golygon ddim ond
ar yr hyn y gobeithiwn ei dderbyn.

Atgoffa ni o'r cyfan a wnest drosom,
er mwyn i ni ganu dy glodydd.
Atgoffa ni o'r cyfan a olygi i ni,
er mwyn i ni rannu dy stori.
Atgoffa ni o'r cyfan a ofynni oddi wrthym,
er mwyn i ni droi at wasanaeth.

Maddau i ni, Arglwydd, pan fo'n gweddïau
amdanom ni ein hunain yn unig;
boed i'n golygon fod yn unig
arnat ti, ein cymydog
a hwn, ein byd hardd.

● Diolch

Diolch i ti, O Arglwydd,
am y ddaear y cerddwn arni,
copa pob mynydd,
yr awyr olau.

Diolch i ti, O Arglwydd,
am yr harddwch a welwn,
blodyn persawrus,
pili-pala.

Diolch i ti, O Arglwydd,
am yr heddwch y tu mewn i'n calonnau
pan fyddant wedi'u llenwi â llawenydd
neu dristwch.

Diolch i ti, O Arglwydd,
am y daith a wnawn,
ôl dy droed
a ddilynwn.